



Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

Strategaeth System Hunan-Wella

2015 – 2018

Cynghrair o 6 awdurdod lleol yw ERW a reolir gan gyd-bwyllgor cyfansoddiadol cyfreithiol.
Y nod yw gweithredu strategaeth a chynllun busnes rhanbarthol cytunedig a chefnogi gwelliant ysgolion.

ERW is an alliance of 6 local authorities governed by a legally constituted joint committee.
Its aim is to implement the agreed regional strategy and business plan to support school improvement.



Cyflwyniad

Mae'r strategaeth hon wedi cael ei pharatoi gan yr Awdurdodau Lleol sy'n rhan o ERW mewn partneriaeth â'n hysgolion a phartneriaid allweddol. Ei diben yw cefnogi datblygiad system o ansawdd uchel er mwyn i ysgolion hunan wella fel yr amlinellir yng Nghynllun Busnes 2014-15 a Strategaeth ERW.

Gweledigaeth ERW yw gweld rhwydwaith o ysgolion sy'n perfformio'n gyson uchel ar draws y rhanbarth pan fo pob ysgol yn ysgol dda sy'n cynnig safonau uchel o addysgu o dan arweinyddiaeth dda gan olygu fod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial i'r eithaf.

Ategir y Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion (Ebrill 2014) gan fodel o welliant wedi ei arwain gan y sector. Yn gynyddol, bydd ysgolion yn ysgogi eu gwelliant eu hunain gyda chymorth seilwaith gan ERW.

Swyddogaeth ERW fel y mae eisoes wedi ei sefydlu yw broceru a galluogi cydweithredu rhwng ysgolion a'i gilydd.

Manteision gweithio ar y cyd:

- canlyniadau gwell ar gyfer disgyblion
- mynediad at ystod ehangach o ymarfer proffesiynol
- arbedion o ran arian ac amser
- gwella recriwtio a chadw staff
- gwell morâl a rhagor o gynhwysedd

o 'Partnership Working: Effective practice in school to school support' (Yr Adran Addysg (Lloegr), 2011)

Blaenoriaethau Cynllun Busnes ERW

Cenhadaeth ERW yw sicrhau perfformiad effeithiol ym mhob ysgol ar draws y rhanbarth drwy:

- Herio perfformiad ysgolion a'r deilliannau sy'n cael eu cyflawni gan bob dysgwr mewn modd cadarn a chyson
- Datblygu system wahaniaethol o roi cymorth proffesiynol i ysgolion mewn modd sy'n gymesur ag angen a nodir drwy fframwaith asesu a chategoreiddio y cytunwyd arno'n genedlaethol sydd ar waith mewn modd cyson ar draws y rhanbarth
- Cefnogi cyflwyno strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd dysgwyr ac i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr sydd o dan anfantais
- Hwyluso a datblygu cefnogaeth ysgol i ysgol effeithiol er mwyn gwella perfformiad a deilliannau drwy ddatblygu ymarferwyr arweiniol profiadol a llwyddiannus
- Rheoli a defnyddio Cynghorwyr Herio sydd wedi eu hyfforddi'n dda ar draws y rhanbarth ac o fewn y canolfannau er mwyn herio perfformiad a chyfeirio cymorth priodol perthnasol
- Ysgogi ymyriadau ffurfiol mewn ysgolion nad ydynt yn perfformio i'r safon ofynnol. Mae Gwelliant wedi ei arwain gan ysgolion yn egwyddor greiddiol drwy gydol ein gwaith ac mae wedi'i wreiddio ym mlaenoriaethau ein Cynllun Busnes.

Gwasanaeth effeithiolrwydd ysgolion rhanbarthol proffesiynol, sengl ac integredig yw ERW sy'n ysgogi gwelliant mewn ysgolion a chyflawniad dysgwyr ar draws ardal gyfunol chwe awdurdod lleol yn rhanbarth De-orllewin a Chanolbarth Cymru o fewn tair canolfan:

- Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro (Canolfan Orllewinol)
- Ceredigion a Phowys (Canolfan Ogleddol)
- Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe (Canolfan Ddwyreiniol)

Datblygwyd y model hwn o gyflawni strategaeth ranbarthol drwy gyfrwng tair canolfan er mwyn sicrhau darpariaeth effeithiol ar draws ardal ddaearyddol fawr ac ystod lawn amrywiol o ysgolion sy'n adlewyrchu'r cyd-destun rhanbarthol a natur ddwyieithog y rhanbarth.

Mae sawl diwyg i waith ysgol i ysgol yng ngwaith y rhanbarth ac mae'n rhan annatod o'n holl waith. Fel rhanbarth, rydym yn ffodus ein bod yn adeiladu ar seiliau cadarn. Yn ein rhanbarth mae gennym ganran uwch o ysgolion, ac o agweddau o fewn ysgolion, a ystyrir yn rhagorol gan Estyn nag ar draws Cymru.

Serch hynny, rydym yn cydnabod bod gwaith ysgol i ysgol yn gofyn am lefelau uchel o gynhwysedd i gyflawni'r gwelliannau sy'n ofynnol o fewn y system. Yn ogystal, gwyddom fod angen mwy o fâs critigol o ran rhagoriaeth nag sydd gennym ar hyn o bryd. Rydym felly yn gweithio mewn ffordd systematig i feithrin cynhwysedd ar lefel ysgol i hunan-wella.

Y Sefyllfa Bresennol

Dangosir ein sefyllfa bresennol yn y ddogfen y mae ERW wedi ei chyhoeddi sy'n dangos gweithgarwch ysgol i ysgol. Mae gennym ystod o weithgareddau wedi'u targedu sy'n digwydd rhwng ysgolion a'i gilydd, mae rhai agweddau wedi'u targedu ac yn fwriadol, ac agweddau eraill yn llai felly.

Y Camau Nesaf

Mae tri nod trosfwaol i'r strategaeth hon.

1. Adeiladu seilwaith effeithiol ac effeithlon y gellir meithrin model hunan-wella a hunangynhaliol o'i gwmpas

- Mae cefnogaeth ysgol i ysgol yn rhan o system gymhleth o wella ysgolion.
- Er mwyn helpu o ran deall y system hon, caiff sawl elfen o gefnogaeth ysgol i ysgol eu nodi yn y fframwaith hwn. Yn ymarferol, wrth gwrs, mae'r llinynnau hyn yn cyd-berthyn ac yn gorgyffwrdd.
- **strwythurau cydweithredol, e.e. rhwydweithiau, trioedd, clystyrau, partneriaethau a chadwyni** Nodwedd sy'n gyffredin ymhlith y strwythurau hyn yw eu bod yn cynnwys dau neu ragor o ysgolion yn dod ynghyd at ddiben y cytunwyd arno.
- **Ysgolion proffesiynol sy'n dysgu** Ysgolion rhagorol yw'r rhain a fydd yn cymryd cyfrifoldeb arweiniol dros ddarparu a sicrhau ansawdd hyfforddiant cychwynnol

athrawon yn eu hardal yn ogystal â chynnig datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel i athrawon.

- **Rhaglen ysgolion dibynadwy iawn** er mwyn sicrhau gwydnwch lle na allwn recriwtio mor hawdd / lle mae rhwystrau eraill i ddylanwadau allanol.
- Llunio **mynegai uniondeb uchel** o ran ble y ceir yr arferion gorau fel y gallwn froceru'r gefnogaeth ysgol i ysgol gywir yn systematig.
- **Cymorth paredig uniongyrchol ar gyfer sefyllfaeodd critigol.** Pan fo angen cymorth penodol, wedi'i dargedu ar ysgolion.
- **Ffederasiynau** - mae hon yn strategaeth wella allweddol ar gyfer y rhanbarth oherwydd natur ein hysgolion a'n demograffeg. Mae'r llwyddiannau'n sylweddol ar draws y rhanbarth.
- **Wedi ei froceru** – cymorth herio ac ymyrraeth o ddydd i ddydd wedi ei ddarparu i ysgolion fel rhan o'r Ysgol Cymorth, Her ac Ymyrraeth.
- Rhoi adnoddau i ysgolion er mwyn rhyddhau eu hymarferwyr mwyaf effeithiol, fel Arweinwyr Dysgu neu **ymarferwyr arweiniol** fel y gallwn feithrin y cynhwysedd sydd ei angen yn gyflym i gynnal gwaith ysgol i ysgol.

Bydd angen inni hefyd esblygu rhaglen gynhwysfawr o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer arweinwyr ac ymarferwyr o fewn ysgolion i atgyfnerthu eu sgiliau er mwyn ymgysylltu a gwella rhwng ysgolion â'i gilydd ac o fewn ysgolion.

Bydd defnyddio'r Model Categoriiddio Cenedlaethol newydd i froceru'r gefnogaeth ysgol i ysgol gywir lle bo angen fel rhan o'r Ddewislen Ranbarthol ar gyfer Cymorth, Her ac Ymyrraeth yn allweddol er mwyn symud adnoddau o'r canol i'r ysgolion.

Bydd uwch-sgilio Cynghorwyr Herio i fod yn froceriaid effeithiol o ran gwelliant wedi ei ysgogi gan ysgolion hefyd yn rhan o strategaeth ddatblygu i gefnogi'r gwaith hwn

2. Egluro swyddogaethau

Mae goblygiadau o ran cefnogaeth ysgol i ysgol ar gyfer pob rhan o'r system ysgolion.

Ceir crynodeb o'r swyddogaethau hyn isod.

Ysgolion a'u cyrff llywodraethol

Mae ysgolion wedi cael blynyddoedd lawer o weithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth ag ysgolion eraill at amrywiaeth o ddibenion. Bydd angen hyd yn oed yn rhagor o barodrwydd i gydweithio er mwyn defnyddio gwelliant wedi ei arwain gan y sector fel y prif gerbyd ar gyfer gwella ysgolion.

Bydd ysgolion yn ymgysylltu â'r system hunan-wella mewn ffyrdd gwahanol ond y dybiaeth yw y bydd gan bawb rywbeth i'w gynnig. Bydd ysgolion yn:

- rhannu arbenigedd
- cydweithio pan fo'n synhwyrol gwneud hynny
- datblygu unrhyw swyddogaethau penodol sydd ganddynt ac sydd gan eu staff
- sicrhau fod cefnogaeth ysgol i ysgol yn ymdrin â blaenoriaethau gwella ysgolion fel y nodwyd yn ACV

Swyddogaeth ERW

Bydd y rhanbarth yn ceisio gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion er mwyn helpu i fwyafu effaith cefnogaeth ysgol i ysgol ar ganlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd hyn yn cynnwys:

- hwyluso – cefnogi datblygiad strwythurau a gweithdrefnau newydd
- broceru - paru angen â darpariaeth a sicrhau'r gefnogaeth gywir mewn modd amserol
- cyfeirio - darparu cyfeiriad clir tuag at gymorth priodol

Partneriaid

Mae'r system hunan-wella mewn ysgolion yn cynnwys ystod eang o bartneriaid arwyddocaol, gan gynnwys Addysg Uwch ac Addysg Bellach, elusennau addysgol a chysylltiadau busnes. Bydd ar ysgolion eisiau ac angen manteisio ar y cymorth a gynigir gan y partneriaid hyn er mwyn cyfoethogi eu strategaethau ar gyfer cefnogaeth ysgol i ysgol.

Felly bydd angen i bartneriaid:

- ddiffinio eu rôl yn glir
- ddynodi'r gwerth y gallant ei gynnig ar gyfer cefnogaeth ysgol i ysgol
- fod yn barod i gydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid
- ddeall a chanolbwyntio ar flaenoriaethau lleol

3. Dynodi sut beth fydd llwyddiant

O ystyried cryfderau ac anghenion unigryw ysgolion ERW, mae'n bwysig sefydlu meini prawf llwyddiant sy'n cyfateb yn union ag amgylchiadau lleol. Yn gyffredinol, os yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, eu bod yn cael y rhan fwyaf o'u cefnogaeth oddi wrth ei gilydd a'u bod yn gallu dangos effaith gadarnhaol y gefnogaeth honno ar ganlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc, yna mae cefnogaeth ysgol i ysgol yn gweithio'n dda. Yn benodol, mae angen diffinio hyn gan ac ar gyfer ysgolion a'u strwythurau cydweithredol.

Dylai ein llwyddiant olygu cryfhau cynhwysedd fel bod pob ysgol yn hunan-wella ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u gwelliant eu hunain. Bydd creu'r amodau er mwyn i'r newid hwn o ran dysgu a systemau fod yn ffyniannus yn gofyn am ymrwymiad a ffocws.

Addewid

Mae pob ysgol ac awdurdod lleol sy'n rhan o ERW yn gwbl ymrwymedig i ddatblygu system o ysgolion sy'n hunan wella. Deallwn mai proses raddol fydd hon wrth i ni feithrin gwytnwch a chynhwysedd dros amser.

Wrth lansio byddwn yn galluogi pob ysgol i ymgysylltu â ni drwy wneud addewid ar-lein i ymgysylltu â'r system newydd a dylanwadu arni.

A ydym yn cynnwys Undebau? A ydym yn cynnwys Llywodraeth Cymru? A ydym yn cynnwys Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant?

Gwerthuso ac effaith

Ni ellir barnu fod gwelliant sy'n cael ei arwain gan y sector yn llwyddiant oni bai ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc. Dylai bod cynllunio ar gyfer effaith yn rhan annatod o bob gwaith a newid yn y system cefnogaeth ysgol i ysgol.

Y peth pwysig yw bod hyn yn cael ei wneud, bod dysgu yn bwydo'n ôl i'r broses gynllunio a bod llwyddiant yn cael ei ddathlu.



ERW

Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

2015 – 2016

- A yw'r gwaith o gyflwyno'r Mynegai Rhagoriaeth wedi ei roi ar waith ym mhob ysgol uwchradd yn y rhanbarth, i gynnwys monitro effeithiol?
- Ail ymweliad craidd - A yw cynnal addysgu a dysgu fel ffocws ar gyfer yr ail ymweliad craidd wedi dod i'r casgliad fod pob ysgol yn cymryd rhan mewn cefnogaeth ysgol i ysgol? (100% o ysgolion i gael yr hawl yn ôl canllawiau ERW y cytunwyd arnynt)
- Cynllunio Hunanwerthuso a Gwella Ysgolion – A yw pob Adroddiad Hunan Werthuso a phob Cynllun Gwella Ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru?
- A yw ysgolion yn cymryd rhan lawn yn y broses o ddatblygu system hunan-wella ar draws y rhanbarth?
- A oes gennym ysgolion braenaru llwyddiannus sy'n gallu rhannu strategaethau effeithiol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf?
- A ydym yn gallu dangos tystiolaeth o well canlyniadau oherwydd cefnogaeth ysgol i ysgol effeithiol?
- A yw morâl yn gwella?

2016 – 2017

- A ydym wedi gweld gwelliannau ym mhroffil mynegai ysgolion uwchradd ac a ydym wedi cyflwyno'n llwyddiannus i bob ysgol gynradd? – Gwelliant ym mhroffil ysgolion uwchradd a phroffil categoraidd. Cyflwyno ysgolion cynradd i'r broses
- Ail Ymweliad Craidd – a ydym wedi cynnal ffocws ar addysgu a dysgu a chefnogaeth rhwng ysgolion â'i gilydd?
- Cynllunio Hunanwerthuso a Gwella Ysgolion – A yw'r dyfarniad ar gynllunio yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau ar gyfer dysgwyr nag ar systemau a phrosesau?
- A yw'r gyfran o gefnogaeth sydd wedi ei froceru rhwng ysgolion yn cynyddu ar y cyflymder a fwriadwyd?
- A yw pob ysgol wyrdd a melyn yn ymgysylltu mewn trefniadau cefnogol lle gallant feithrin eu cynhwysedd eu hunain tra bônt yn cefnogi eraill?
- A oes gennym ysgolion hyderus sy'n cymryd risgiau er mwyn ymgynhyddu at ragoriaeth?
- A ydym yn cryfhau'r mynegai rhagoriaeth ac yn cynnal ei ffocws?

2017-1 2017-18

- A yw ysgolion yn cael eu cefnogi'n dda gan ei gilydd?
- A yw'r ychydig ysgolion nad ydynt wedi ymgysylltu ag eraill yn cael eu cefnogi ac yn cael eu hwyluso i ymgysylltu?
- A yw safonau'n cyflymu'n gyflymach nag y buont dros y tair blynedd flaenorol ac ynghynt na mewn rhanbarthau eraill?